# DINESYDD
# Medi

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH    1980    RHIF 70

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

DYFFRYN LLIW

Aeth Y Dinesydd i Ddyffryn Lliw, a'r peth cyntaf a wnaeth oedd mynd i weld a oedd papur dyddiol yno; i weld a oedd rhywrai wedi mentro i'r maes a arloeswyd ganddo ef yng Nghaerdydd. Yr unig wybodaeth a gafodd oedd y bydd papur ym Machynlleth, ond ei bod yn amhosibl meddwl am bapur dyddiol go iawn yng Nghymru oherwydd llu o broblemau.

Ei gamp nesaf oedd dod o hyd i enwau pawb o'n dinasyddion a fu'n fuddugol yn yr Eisteddfod, a chredwch fi, tasg nid bychan oedd hon.

Roedd pethau'n lled wan arnom ar y Sadwrn, Helen Lewis o Ddinas Powis yn cael pedwaredd wobr am unawd offeryn cerdd a chôr Y Creigiau yn cael ail wobr yn yr adran corau gwledig.

Ond daeth Caerdydd i'r brig sawl gwaith wedyn. Cafodd Ysgol Hafod y Waun gyntaf am ganu penillion ac ail am gydadrodd yng nghystadleuaeth i ddysgwyr. Aeth trydedd wobr i Pauline Barnes a'r gyntaf i Einir Wyn am ddawnsio.



EINIR WYN

Cafodd Rosemary Locke gyntaf ac ail am ganu offerynnau chwyth a chafodd Peter Heron gyntaf a thrydydd. Aeth y wobr gyntaf am ganu'r ffidil i Ceri Lloyd Jones a rhannodd hi'r Ruban Glas hefyd fel un o'r ddau unawdydd gorau. Aeth y wobr am y côr i gôr enwog Godre'r Garth.

Camp y dydd Mawrth oedd yr hyn a wnaeth Betsan Powys, sef ennill tair gwobr gyntaf. Enillodd hefyd un ail wobr. Cafodd ei chyflwyno i'r byd fel "merch R Alun Evans" ond mae am i'r Dinesydd bwysleisio mai ei mam biau'r clod am ei dysgu hi ac iddi ddweud hynny wrth y gohebyddion eraill!

Enillodd Cliff Jones drydedd wobr am ddawnsio, cafodd Iona Jones drydedd wobr am ganu penillion, ac aeth trydedd wobr hefyd i barti penillion Ysgol Llanhari.

Cafodd Elinor Wyn ail wobr am adrodd gyda'r delyn ac aeth sawl gwobr a chlod mawr i Aelwyd Caerdydd am ddawnsio a chawsant wobr gyntaf hefyd am gydadrodd.

Yn myd Celf a Chrefft, enillodd Chris Gregory wobr am waith ffoto a Philip Beynon wobr am lunio llwy serch.

Daeth dau englyn i rwyd ceidwad ein colofn farddol, T Arfon Williams, ac aeth y wobr am nofel goffa Daniel Owen i Aled Islwyn. Enillodd Marian Rees wobr yn yr adran gomisiynu a daeth gwobr hefyd i Idris Evans yn yr adran cyfieithu drama un act.


Mae'r rhestr yn faith a maddeued unrhyw gystadleuydd i'r Dinesydd os cafodd unrhyw enw ei adael allan.

Roedd ein dinasyddion yn amlwg mewn meysydd eraill, hefyd. Roedd Brinley Jenkins, Gwenlyn Parry, George P Owen, John Hefin a Rhydderch Jones yn cloriannu yn yr adran ddrama a Meredydd Evans yn beirniadu'r gerdd goffa i Ryan. Harri Pritchard-Jones oedd beirniad y stori fer a Mary Wiliam a gloriannai'r casgliadau o goelion ardal. Roedd Roy Thomas yn un o feirniaid yr adran wyddonol.

Fe fu rhai ohonoch, mae'n siŵr, yn gweld cynhyrchiad Cwmni Theatr Cymru o Gwenith Gwyn. Yr awdur oedd Rhisiart Arwel sydd wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ers cryn amser. Bydd eraill ohonoch wedi bod yn gweld Un O'r Teulu, trosiad John Ogwen o ddrama enwog Alan Ayckbourne. Cofiwch y bydd y cynhyrchiad yma, a chynhyrchiad Cwmni Theatr Cymru yn dod i'r Sherman maes o law.

Yn y byd cerdd, roedd Alun Guy yn cloriannu yn y brif adran, Phyllis Kinney yn beirniadu yn yr adran Dawnsio Gwerin, ac roedd Jeanette Massochi yn cyfeilio, gyda Mona Meirion yn cyfeilio i gerdd dant.

Aiff eich papur ddim mor bell â dweud iddo fwynhau pob munud o'r Eisteddfod. Bu mor ffôl â gwrando ar y cyfryngau ei bod yn "galed dan draed" a mynd yno'n gwisgo esgidiau bach - a gorfod talu'n ddrud am hynny. Yn wir, pe bai'r Ŵyl wedi bod dan haul Awst (beth bynnag ydy hwnnw) go brin y byddai'r maes wedi bod yn ddeniadol. Sefyllfa fel hon a bair i rai pobl hiraethu am fan sefydlog i'r Ŵyl, man tebyg i Gaerdydd lle'r oedd popeth mor gyfleus. Roedd y maes yma yn ymyl rheilffordd brysur, ac mae'n anodd gwybod beth a barodd i gynllunwyr y maes beri i'r Theatr Fach, Y Stiwdio Gerdd a'r Babell Lên gefnu arni. Mae'n anodd credu...



# RHOI PEN AR Y BLOCYN

GWYNN AP GWILYM

'Roedd hi'n syndod braf cael gwahoddiad oddi wrth olygydd Y Dinesydd i fynegi f'ymateb i'r ddwy erthygl, 'Gair o Bant' (Nia Hall Williams) a 'Dyn Dwad Dros Dro' (John Elfed Jones), yn y rhifyn diwethaf, a chael defnyddio'r papur am y tro fel ceffyl pren y Groegiaid gynt i gludo fy neges i ganol y ddinas.

Cyfeiria Mrs. Williams at fy erthygl, 'Cymraeg y Pridd a'r Concrid', yn Barn (Nadolig 1979), gan honni fy mod yn credu mai 'Peth Drwg', chwedl hithau, yw dinas Caerdydd, ar sail (a) perfformans gwael ei dinasyddion yng nghystadlaethau llenyddol yr Eisteddfod Genedlaethol, a (b) anallu'r ddinas i gynhyrchu mwy na dau lenor Cymraeg. Trueni na fyddai hi wedi nodi mai dwy allan o dair dadl atodol oedd y dadleuon hynny i brif ddadl fy erthygl, sef bod bywyd Cymraeg cyflawn yn gwbl amhosibl yn ninas Caerdydd, fel ym mhob dinas arall yng Nghymru, ysywaeth. Prif bwynt fy erthygl i yn Barn oedd nad oes yn trigo yng Nghaerdydd ond un math o Gymro (a Chymraes) Cymraeg ei iaith, sef y Cymro addysgedig, proffesiynol, 'dosbarth canol', os mynner, sy'n dilyn ei alwedigaeth yn un o'r ysgolion Cymraeg, neu yn y BBC neu HTV neu'r Swyddfa Gymreig, neu yn un o'r llu sefydliadau Cymreig eraill a ganolwyd bellach yn y ddinas. Ni welais i erioed yng Nghaerdydd Gymro Cymraeg yn gyrru bws, dyweder, neu'n gwerthu petrol, neu'n darllen y meter, neu'n trwsio'r ffordd; heb sôn am glywed yr un ffermwr o'r cyffiniau yn adrodd englyn o'i waith i garfan o'i ffrindiau wrth Neuadd y Ddinas! I un dosbarth yn unig y perthyn holl Gymry'r lle: dyma'r unig dref yng Nghymru lle mae'n rhaid i bob Cymro Cymraeg wrth bump lefel O o leiaf cyn y derbynnir ef oddi mewn i'w phyrth. Dichon fod rhai pobl yn mwynhau cymdeithas 'snobyddlyd' felly, - merched, er enghraifft, sy'n medru fforddio prynu papur wal lliwgar, a phenderfynu, ar ôl ei osod, nad yw'n gwneud y tro i'r gegin! Ond 'dyw cymdeithas o'r fath ddim yn llawn nac yn grwn, ac am hynny, yn fy marn i, 'does yna fawr o ddyfodol iddi. Bu cymdeithasau Cymraeg o'r fath yn bodoli mewn dinasoedd Seisnig eraill, - yn Llundain a Lerpwl a Birmingham, - ar un cyfnod,ond y mae eu haul erbyn hyn wedi hen fachludo.

Y mae'n wir fod yna nifer o ysgolion Cymraeg yn ninas Caerdydd heddiw. Ond yr wyf fi, yn bersonol, o'r farn mai pur anfoddhaol ydynt, a hynny am nifer o resymau y cymerai ormod o lawer o ofod imi eu rhestru yma. Y mae'n wir hefyd i rai o'u disgyblion ddod i'r brig ym mhrif gystadlaethau Eisteddfodau'r Urdd o dro i dro, cyn mynd ymlaen i ddilyn eu gyrfa ym Mhrifysgolion Seisnig Rhydychen neu Gaergrawnt.

Ond tybed a fydd i'r bobl ieuainc hyn barhau i lenydda yn Gymraeg pan na bo galw arnynt i geisio dwyn clod a bri i'w hysgol? Y mae'n arwyddocaol mai troi yn yr un rhigol lenyddol a wnant i gyd : ni allaf ddwyn i gof enw'r un disgybl o Rydfelen na Llanhari y gellir dweud amdano ei fod yn ddarpar Fardd Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol. 'Dyw Cymreictod y ddinas ddim digon cadarn i gynhyrchu bardd yn y traddodiad cynganeddol clasurol. Dim ond cymdeithas drwyadl Gymreig ei hiaith a all gynhyrchu bardd felly.

'Does arna i ddim eisiau bod yn sarhaus. Y mae gen i edmygedd mawr o Gymry Cymraeg Caerdydd, - y bobl hynny sy'n ymlafnio gyda gwahanol achosion Cymraeg yn y ddinas. Gofidio yr ydw i bod cymaint o egni a brwdfrydedd a thalent ac athrylith Gymraeg yn cael eu gwastraffu mewn lle mor anobeithiol, tra bo ardaloedd traddodiadol Gymraeg yn dihoeni o eisiau arweinwyr. 'Rydw i'n fodlon betio fy mhen nad arhosai'r un wan jac o Gymry Caerdydd yn y ddinas oni bai fod amgylchiadau gwaith yn mynnu hynny. Yno, wedi'r cyfan, y mae'r swyddi da. Ond tra bo sefydliadau'r genedl yn tynnu hufen ein pobl ieuainc i Gaerdydd wrth y cannoedd, y mae hen ardaloedd cefn gwlad yn nychu ac yn marw oherwydd diboblogi a mewnlifiad Saeson. Dyna ddagrau pethau, a dyna'r eironi. Y mae dadl gref iawn, mi gredaf i, dros ddatganoli awdurdod ac uchel swyddi o Gaerdydd. Y gwir plaen amdani yw fod y 'sefydliad' Cymraeg yng Nghaerdydd yn bod er mwyn Y Fro Gymraeg a siaradwyr naturiol yr iaith, ac y mae'r rheini, ar hyn o bryd, ugeiniau o filltiroedd i ffwrdd. Pa bai Cymreictod y Fro farw, ni fyddai diben o gwbl i Gymreictod y ddinas, na gobaith iddo ychwaith.


Er cymaint y parch sydd gen i i ymdrechion Cymry Caerdydd mewn sawl cyfeiriad, 'fedra i ddim llai na theimlo y byddai'n rheitiach o lawer iddynt ddychwelyd i fân drefi a phentrefi Cymraeg y Gorllewin a'r Gogledd, lle y mae gwir angen eu brwdfrydedd a'u hegni cyn i Gymreictod y lleoedd hynny farw am byth. 'Cymdeithas newydd yw Caerdydd', ebe Nia Hall Williams, 'fe fydd yn ddigon o bryd ymhen can mlynedd i ddechrau pwyso a mesur ei chyfraniad i'r genedl'. 'Dydw i ddim yn siwr a oes gan y genedl gan mlynedd i chwarae â hwy. Rhwng y diboblogi gwledig, a'r tai haf a'r hipis sy'n cymryd lle'r gwŷr a'r gwragedd talentog a sugnir i'r ddinas, a fydd yna genedl ar ôl, tybed ymhen can mlynedd?

Y pwynt mawr yw hyn: ni Chymreigir byth mo ddinas Caerdydd. Y mae'n bosibl y ceir 'cydymdeimlad ac ymwybyddiaeth', chwedl John Elfed Jones, ond 'dyw hynny ddim yn ddigon. Pa les, yn enw pob rheswm, bod landlord o Hwngaria yn ymfalchio, mewn Saesneg bratiog, yn ei 'Welshness'? Chwarae ar ymylon cenedligrwydd yw peth felly, a bron iawn nad yw'n sarhad ar ein pobl. Yr iaith Gymraeg yw bathodyn Cymreictod. Ni ddaw'r iaith honno byth yn iaith naturiol y mwyafrif o bobl Caerdydd. Hyd yn hyn, fodd bynnag, fe bery yn iaith gyffredin rhai o'n hardaloedd gwledig : 'dyw hi ddim eto yn rhy hwyr i achub yr ardaloedd hynny. Chwi Gymry Cymraeg Caerdydd, felly, dychwelwch adref i'ch cynefin. Dilynwch Nia Hall Williams a John Elfed Jones a Gwyn Erfyl ac Alun Evans a Vaughan Hughes yn ôl i'r broydd. Fe fydd hadau eich brwdfrydedd yn syrthio ar dir ffrwythlon yno, yn hytrach na chael eu hysgubo ymaith gan y gwynt Seisnig oddi ar balmentydd concrid y ddinas fawr.

## CROESAIR Y DINESYDD

**gan ap Lewsyn**

# 6



Ar draws

2. Gwahaniaethu,dangos arbenigrwydd. (6)
5. Tyrfa yn y môr. (4)
8. Mae bod yn ddig wrth un o'r teulu yn creu teimlad annymunol iawn. (6)
10. Yr un sy'n cael y bai am fwrw glaw, eira a chesair. (2)
11. Gorchwyl cath. (6)
12. Os ei di i ganol yr efrau gwyllt bydd yn flin gennyt. (7)
13. Llu o filwyr (neu o gythreuliaid) (3)
14. Calon ynad yn gwrth-ddweud.(2)
15. Gwaith cerddorol sy'n cymryd rhan o'r noson ac yn mynegi neges ganolog y llatai. (6)
16. Cartwnydd Y Dinesydd yn ffwndro ac yn ildio, ac yn colli pum cant. Does ryfedd iddo ffoi! (7)
20. Cyfeiriad Yr Hwntw. (2)
21. Y mae yn amhersonol. (2)
22. Pum cant yn mynd o'r Hen Wlad i'r ochr arall. (2)
23. Hon, o'i threfnu'n iawn, fydd i arbed Alwen. (1,8,6)
27. Arddodiad sy'n droedig pan fydd yn gwisgo het. (2)
28. Bannod. (2)
29. Yr ateb a geir o Landybie.(2)
31. Darogan gei, ar ôl newid. (7)
33. Mae angen troi tail y Rheilffyrdd Prydeinig yn y buarth.(6)
35. Rhagenw Saesneg ac arddodiad Cymraeg. (2)
36. Cewch hon yn isel neu yn ganolig, yn ôl eich chwaeth. (3)
37. Y stâd lliwus y mae gŵr ynddi. (7)
38. Gweithred ddilywodraeth wrth ddosbarthu'r un tew. (6)
39. Ateb cadarnhaol. (2)
40."Rwy'n ------ o'r anialwch." Ceiriog (6)
41. Geiriau ag enaid ynddynt.(4)
42. Rhai di-drefn o Flaen-nedd yw'r merched yma. (6)

I lawr

1. Gwlad ffa crin. (6)
2. Disgyblaeth i'r unigolyn; rhyddid i'r wlad. (5-9)
3. Geiryn, a rhan o'r geiryn.(2)
4. Gwartheg Sir Gaerfyrddin.(2)
6. Mae'r telerau'n glir; am ddim i ddechrau a dau wedyn. (6)
7. Trigolion Ynys Molokai. (Yr ynys yn unig) (14)
8. "Wele! ei golyn dug," yw hanfod troedigaeth. (6,1,7)
9. Sanhedrin y Gogledd. (5,3,6)
10. Os byddi di-hen yn y De, byddi'n deffro. (4)
11. Cyfystyr â "19" i lawr. (3)
17. Yr hwn sydd ganddo glustiau(3)
18. Y dillad hyn ni welir. (3)
19. Cyfystyr ag "11" i lawr.(3)
22. Pur ddisglair. (3)
24. Dull teitl archesgob cwrs.(3)
25. Dull annerch parchus. (3)
26. Sied ynghanol eglwys. (3)
30. Ystrad Fflur, Glyn y Groes, ac ati. (6)
31. Gwybodaeth o'r gorffennol.(4)
32. Mae hi'n nwyddus i droi ei gardd. (6)
34. Bloneg og. (3)

CROESAIR RHIF 5...Datrysiad

Ar draws: 1. adloniant; 6. llamfa; 9. gefynnu; 10. cym-wdo-L; 11. ei lwy; 12. uchelion; 13.AN(adnabyddus); 18. wtra; 19. oer-F-Elgar; 20.(King) OLAF; 23. bu; 26. Eden wiw; 28.(b)YS-I-GO(fio); 30. Troedle; 31.gwalltog; 32. urdd-AS.

I lawr: 1. argae; 2.LE-FEL-U(ned); 3.nentydd. 4. aruthr; 5.tes-tun; 6. llymder; 7.medaist; 8.afluniaidd; 13. ategu; 14.GLODDESTAU; 15.(-dde)G-O-F(awrth); 16.(ne(GRO); 17. egr; 18. wrth; 21.aberoedd; 22. nwy-D-us; 23.BWYEILL(lle i bwy); 24.ty-BA-co; 25.(yn drist a) DISTAW; 27.(gym)YSG-A-W(ermod); 29.(an+gro) = ORGAN.

ENNILL GWOBR

Enillodd Elin Angharad Edwards wobr ar ddiwedd ei blwyddyn gynta yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain - The Dove Prize - sef gwobr i un o'r tri ffidlwr gorau yn eu blwyddyn gyntaf.

PRIODAS HAPUS

Priodas hapus i Hefin Mathias a Catrin Rhys Jones, y ddau o ysgol Llanhari. Maen nhw'n bwriadu byw ym Mhontypridd. Does dim gwobr am enwi cân werin sy'n hoff gan i ddau!

## NOSON GWILYM

Bydd y pumed o Orffennaf yn noson i'w chofio yn Rhiwbeina - noson talu teyrnged i Gwilym, un o ddinasyddion disgleiriaf y pentref. Pe bai'r Dinesydd yn cofnodi popeth a ddigwyddodd y noson honno, fyddai dim lle i unrhyw beth arall.

Gellid dechrau gyda'r bwyd, falle. Danteithion o sawl math, wedi cael eu paratoi gan ferched a ŵyr mai trwy'r ystumog yr eir i galon gŵr dibriod. Amser yn unig a ddengys a lwyddodd yr ystryw'r tro hwn!

John Albert oedd yn arwain - yn ei ddull ffraeth, arferol. Ac roedd gan bawb rywbeth da i'w ddweud am y gwrthrych. Y mae'n debyg y ceir cerdd Tomos Emyr yng ngholofn farddol y rhifyn hwn. Roedd rhai o'r Diliau yno hefyd, yn rhoi pwt o gân, a hir y cofir y parti'n canu'n hudolus, Peter Pan!

Daeth un o ddysgwyr ifanc ysgol Cathays a Cen Côn i ddiolch i Gwilym am eu cyflwyno nhw a llu o rai eraill i'r iaith Gymraeg.

Daeth Prys Edwards yr holl ffordd o Aberystwyth i ddangos mai Gwilym yw Mistar Urdd mewn gwirionedd. Soniodd ef am ei waith fel gwersyllwr a chychwynnydd Yr Urdd yn y ddinas.

Mynnodd Alun Guy fwrw trem yn ôl i ddyddiau plentyndod - gan gyfeirio'n gynnil at alluoedd Borgaidd Gwilym ym myd tennis. Gŵr nad oedd yn barod i ildio pwynt i neb! Mae Wimbledon ar ei golled!



Ni fyddai'r noson yn gyflawn heb ymddangosiad y Mr Urdd arall, a ddaeth yno i gyflwyno cartŵn o waith Cen Williams i Gwilym, ymhlith pethau eraill.

I dudalen 4


# BYD Y BOL

Pleser i'r Dinesydd yw cael cyfeirio at gynnyrch llenyddol dau awdur o Gaerdydd - gŵr a gwraig a fu'n gweithio ar y cyd, sef Alan a Glyneth Torjussen. Er gwaetha'r cyfenw dieithr, un o blant y ddinas yw Alan, ac mae'n gweithio ar hyn o bryd gyda chwmni HTV. Yn Arfon y mae gwreiddiau Glyneth - mae'n ferch i'r nofelydd-bregethwr, Emyr Roberts. Enw eu llyfr yw The Tour of Wales Recipe Book. Ynddo ceir casgliad o rysetiau o wahanol lefydd yng Nghymru. Bu Glyneth a'i gŵr, yn eu horiau hamdden, yn eu casglu oddi wrth gogyddion mewn tai bwyta a gwestyau led led Cymru. Ond gadewch i Glyneth adrodd ei stori yn ei geiriau ei hun!

"Hel i'w bolia," meddech chi. Wel ia a naci. Doedd hi ddim yn hawdd, fel y darganfuom yn fuan ar ôl cael ein syniad gwreiddiol. Y broblem gyntaf oedd cael cogyddion ar draws y wlad i ddadlennu eu cyfrinachau i ni. Yn wir, buan iawn y sylweddolom mai pobl o'r cyfandir yw llawer o gogyddion tai bwyta gorau yr hen wlad. Fel golygyddion, cawsom gryn drafferth i ddehongli a golygu'r rysetiau i wneud baldordd y cogydd yn ddealladwy i wraig tŷ gyffredin.

Roedd yn hwyl cael ffrindiau draw am bryd o fwyd, ond ar un achlysur rhaid oedd i'r gŵr gael cario'r pryd i'r ardd i gael y golau cywir, tra yr oedd y gweddill ohonom yn ysu am blannu ein ffyrc.

Cawsom ddigonedd o hwyl yn sgwennu'r llyfr, ond beth sy'n fwy na hyn yw fod pobl eraill yn dweud yn awr eu bod hwy yn mwynhau ei ddefnyddio. "




Ac os ydych chi'n ysu am ei ddefnyddio, fe'i cyhoeddir gan Wasg Gomer am £2.95 (clawr meddal) a £5.75 (clawr bwrdd). Gall golygydd y mis ddweud fod graen ar y llyfr. Mae wedi'i gynllunio a'i osod yn broffesiynol tu hwnt, ac mae'n llawn o rysetiau. Dywedir ei fod ar werth yn Oriel, os oes brys blasu ar rai ohonoch.

Ond oni fedrwch aros i brynu'r llyfr, argreffir un rysait yn y cylchgrawn hwn. Ac os yw hynny'n ormod o dasg, nodaf i'r rysait gael ei gofnodi yn Yr Ystafell Gymraeg, Ffordd Eglwysnewydd, Caerdydd. Fe welir fod iddo enw awgrymog! Golwythau Cig Llo, "Tywysog Cymru"!

Ewch i dudalen 7

# HWYL HAF

Ar waethaf anwadalwch y tywydd, daeth cannoedd i Ysgol Melin Gruffydd ar Fehefin 21ain i brynu a gwerthu yn Ffair Haf gyntaf yr ysgol newydd hon.

O dan nawdd y Pwyllgor Rhieni ac athrawon, trefnwyd stondinau o bob math - o hen bethau i blanhigion, o lyfrau i fetgwns. Bu hwyl ar y gwerthu a phawb yn barod i wagio'u pocedi er lles plant yr ysgol. Trefnwyd bwyd o bob math - mefus, pice, tafell eidion a chreision ac oren. Roedd gêmau i'w chwarae a sawl raffl i'w mentro.

Ar y cae ysgol, safai injan dân yn ei gogoniant coch, a thîm ambiwlans yn barod i gynorthwyo. Am ychydig, bu band jazz yn dangos ei fedr, ac roedd mynd ar y cyfan. Ac ar ddiwedd y dydd, cafwyd bod swm sylweddol o arian wedi ei gasglu at gronfa'r ysgol. Mae'r Pwyllgor am ddiolch i bawb a roes ysgwydd dan y baich. A'r gair olaf?

Brysied y flwyddyn nesa!

# Minnyms

Mae un peth yn ddirgelwch i mi. Pam fod rhaid i bob enwad gael ei lyfr emynau ei hun? Yn y byd sydd ohoni heddiw, buasech yn meddwl y gallen nhw arbed tipyn o bres trwy fodloni ar un detholiad da rhyngddyn nhw, yn enwedig o gofio fod nifer helaeth o'r emynau yn gyffredin i sawl detholiad ac mai pur anaml y cenir swm enfawr ohonyn nhw.

Roedd gan yr Annibynwyr eu Caniedydd Newydd yr Ysgol Sul er 1930, ac mae olynydd sol fah iddo newydd ddod o'r wasg - sef Caniedydd yr Ifanc. Mae ynddo 168 o donau ac ymron 200 o emynau.

Be sy a wnelo'r Dinesydd ag e?

Dim ond fod pedwar o'r golygyddion yn ddinasyddion, a thri ohonyn nhw yn aelodau yn Minny St...Alun Davies, Alun Guy a Meurwyn Williams. Y pedwerydd yw Gerallt Evans. Ac mae'r hen nodiant hefyd ar y ffordd....

*** *** *** ***

NEVER FORGET YOUR WELSH!

Os ych chi am joino Clwb Cymrâg Cardydd, a châl peint bach yn yr iaith, mas â'r dicshonari na, ac os yw'r wraig/gŵr yn sharad Sisneg, wel, difors amdani!

# NEWIDIADAU RHYDFELEN

Mae pobl yn dueddol o edrych ar ddechrau Medi mewn ysgol fel mis sy'n rhoi cychwyn i yrfa newydd nifer o blant o nifer o wahanol ysgolion. Dydyn nhw ddim yn sylweddoli bob tro y gall newid dirfawr ddigwydd yn ystafell yr athrawon yn ogystal rhwng Mehefin a Medi, ac mae newid mawr i'w weld yn yr wynebau y tymor hwn.

Mae wyneb Mrs Angharad Ellis wedi mynd. Bu'n bennaeth adran y clasuron am sbelan hir ac roedd yn amlwg iawn gyda gwaith cymdeithasol yr ysgol. Yn ogystal, roedd yn un o gydolygyddion y geiriadur Lladin-Cymraeg y gwelwyd adolygiad arno yn rhifyn Gorffennaf-Awst o'r Dinesydd. Mae hi a'i gŵr, Dr.Phil Ellis, dirprwy bennaeth yr ysgol ganol, newydd symud i fyw i Penylan Place, Caerdydd - ac mae si fod Angharad yn edrych ymlaen at gael bod yn wraig tŷ am dipyn.

Ond mae Dr.Wynford Leyshon yn gadael - yn symud i fod yn bennaeth adran Saesneg Ysgol Gyfun Llanrhymni, Caerdydd. Gŵr a fu'n weithgar gydag athletau a'r tîm rygbi. Gadael yw stori'r Dr. Charlotte Davies yn ogystal. Americanes ifanc ydy hi ac yn dysgu Mathemateg yn yr ysgol - trwy gyfrwng y Gymraeg wrth gwrs. Ei bwriad yn awr yw edrych yn fathemategol arnon ni'r Cymry.

Mathemategydd arall sy'n mynd yw Mr. Keith Jones. Mae e'n dod aton ni yma i Gaerdydd i ofalu am Adran Fathemateg ysgol Glan-taf, yn lle'r Dr. Graham Bowen, cynathro o Rydfelen sy'n symud i Adran Fathemateg Ysgol Bro Myrddin. Mae Keith yn ŵr i Nia Wyn sy'n edrych yn siriol arnom o bryd i'w gilydd trwy'r sgrîn deledu.

Mae Mr.Morgan Francis o'r adran grefftau yn gadael dysgu'n gyfangwbl ac yn mentro i fyd busnes - yn bwriadu agor siop yn Nhreganna, sef "Siop Jennie" - dyna le iawn ichi am gynnyrch crefft a gwaith llaw. A chyfle i'r Dinesydd gael hysbyseb, hwyrach! Ef yw arweinydd y mudiad "Myfyrio Trosgynnol" yng Nghymru.

Mae Mrs Juli Paschalis wedi dal cysylltiad hir â'r Adran Saesneg yn Rhydfelen. Mae wedi bod yn dra chynhyrchiol ym myd llyfrau plant ac ym myd cymdeithasol yr ysgol. Nawr, mae'n bwriadu bod yn gynhyrchiol mewn modd ymarferol arall!

Ond mae nifer yn dod i gymryd eu lle. Daw Elgan Jones yr holl ffordd o Lundain i'r Adran Grefftau. Ond mae ei rieni'n dod o Gwmystwyth, bro newydd Merêd,a'u gwreiddiau yn Ffair Rhos. Mae Huw Jones, sy'n dysgu yng Nghaerffili ar hyn o bryd, yn ymuno â'r adran Fathemateg, ei chwaer, Elen wedi bod yn athrawes yn yr ysgol. Gydag ef, i'r adran Fathemateg, daw Jeffrey Davies o ardal Pen-y-bont. Ac mae Huw Onllwyn Jones yn symud o Ysgol Gyfun Llanrymni i ymuno â'r adran Gemeg. Bydd nifer yn adnabod ei fam, Mrs Cathy Jones, gynt o Fryn-taf, nawr o Lanhari.

Daw Heledd Ann Hall o bentre'r Dolau, ger Bow Street i'r Adran Gerdd. Ei mam, Gaynor Hall yw pennaeth adran gerdd ysgol Penweddig, Aberystwyth. Hon yw ei swydd gyntaf. Un arall sy'n dod i'w swydd gyntaf yw John Alun Roberts sy hefyd yn ymuno â'r Adran Fathemateg.

Swydd dros dro sydd gan Helen Rees. Daw i gymryd lle Mrs Paschalis yn yr adran Saesneg. Daw'n wreiddiol o Abergwaun. Mae'n ddyweddi i Ceri Preece, un o gynddisgyblion yr ysgol. Mae cysylltiad agos yma â chapel Heol Crwys. Mae Alun Preece a'i wraig newydd symud i Awstralia am flwyddyn - i swydd ddarlithio.

A dyna ni - am y tro. Gobeithio y bydd pob un ohonyn nhw'n hapus yn eu bywydau newydd. Pob lwc iddynt.

## MUDANDOD O'R MYNYDD BYCHAN

Ni ellir edrych ymlaen at ragor o newyddion o Ysbyty'r Mynydd Bychan achos mae'r gohebydd wedi symud. David E.Morris oedd e a'i wreiddiau yn Llaneurgain. Mae newydd basio'i arholiadau a mynd yn feddyg i ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Pob diolch a phob lwc.

## HI A HED I FODEDERN

Penodwyd Rhinedd Evans, Y Llythyrdy, Cowbridge Road, yn Athrawes Gwyddor Tŷ yn Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn. Mae Rhinedd yn gyn-ddisgybl o ysgol Bryn-taf, ac mae newydd orffen ei blwyddyn olaf yng Ngholeg Llandaf, a chipio'r radd o B.Add.

# HELP!

Mae nifer ohonoch yn cael eich papur bro, Y Dinesydd, trwy nifer o wahanol ffyrdd - ond un o'r dolenni pwysicaf yw'r ddolen ddosbarthu. Arweinydd y grŵp sy'n gwneud y gwaith yw Alan Jobbins, ac mae ganddo griw bychan, dethol sydd, unwaith y mis, yn galw yn rhywle am un pecyn neu ragor o'r papur ac yn gofalu fod y cyfan yn cael eu rhoi i rywun, i rywrai, neu mewn man lle y gall pobl eu codi i fyny.

Dydy'r sistem ddim yn gweithio fel cloch, y bell ffordd, fel y gŵyr rhai ohonoch. Goddefer un enghraifft.

Tybiwyd fod Ysbyty'r Waun yn lle da i ddosbarthu'r papur am fod yno nifer o Gymry Cymraeg, yn feddygon yn nyrsus ac yn weithwyr eraill - heb sôn am y cleifion a ddaw o bob rhan o Gymru am ymgeledd.

Hyd yn ddiweddar, roedd gennym ffordd i sicrhau fod cyflenwad yn cael ei ddosbarthu yn Ysbyty'r Waun - ond am resymau nad oes angen mynd ar eu holau yma, mae gennym broblem ddosbarthu yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

"People always come here, expecting to distribute things. It's not part of my job..."

A dyna ni. Dyna un broblem sy'n wynebu'r tîm. Ac y mae yna ragor. Rhai y mae Alan Jobbins a'i dîm yn bwriadu eu dehongli o'r mis hwn ymlaen.

Ond maen nhw'n galw am gymorth. Tybed a fedrech chi helpu? Bydd yn golygu awr neu ddwy o waith un diwrnod neu noson bob mis - ond gall yr awr ddod â byd o les i amryw.

Os ydych chi'n barod i helpu, cysylltwch ag Alan. Mae'n byw yn 47, Heol Wingfield, Yr Eglwysnewydd, a'i rif ffôn yw:63275.

Mae rhaglenni EISTEDDFOD CAERDYDD allan ers meitin. A dydyn nhw'n costio dim. Ydych chi wedi cael eich rhaglen chi? Mae rhai i'w cael gan:

Alcwyn D.Evans, 16,Romilly Park Y Barri (735472)
Susanne R.Smith, 44F, Heol Llanishen-fach,Caerdydd(618471)
Elinor Wyn,18, St John's Crescent Treganna,Caerdydd (20872)
W J Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (756282)
Ann Beynon, 4ydd Llawr,Adeilad Cory, Heol Bute, Caerdydd398189
B D Harries, 6 Lakeside,Caerdydd 756562 ac ORIEL.

# Y GOLOFN GAIN

dan ofal

**ARFON**

O ddechrau, dechrau'n iawn. Hyfrydwch yw cael cyhoeddi'r gyfres grefftus hon o englynion gan Emyr Lewis o Lys-faen. Gallwn hawlio'r bardd ifanc hwn fel un ohonom ni er iddo gael ei eni yn Llundain. Mab ydyw i Kynric a Bethan Lewis ac mae yn llinach y gŵr mawr o Ryd-ddu. Graddiodd eisoes yng Nghaergrawnt ac yn awr mae'n astudio'r Gyfraith yn Aberystwyth. Fe ddysgodd gynganeddu yn Rhydfelen a chafodd feistrolaeth lwyr ar y cyfrwng ers tro byd. Gwrthrych yr englynion, wrth gwrs, yw Gwilym Roberts, a anrhydeddwyd ag MA yn ddiweddar gan y Brifysgol Agored. Fe'u hadroddwyd yn y cyfarfod teyrnged a drefnwyd iddo yn Rhiwbeina yng Ngorffennaf.

GWILYM ROBERTS MA

Arwr a all gymharu â Gwilym<br>
Nis gwelir yng Nghymru;<br>
Ni chei ŵr sy'n ei charu<br>
Cyn wired â'i gred mor gry'.

Arwr mwy na Super-man, yn nabod<br>
Bron pob un ymhobman,<br>
Yn gyfaill Cymru gyfan,<br>
A phawb sydd iddo yn ffan.

Anhygoel rym ei Yoga a'i ceidw<br>
Yn gadarn a smala;<br>
Gwilym yw arwr Gwalia,<br>
Y llywydd a'r derwydd da.

Dywed y byd mai dewin y ddawns yw<br>
A'i ddawn swyn gysefin;<br>
Nijinsky lysti'i ben-lin,<br>
A gwrw dawnswyr gwerin.

Pob gŵr ffein o Riwbeina a'i fola,<br>
Cryn fil o'r Gabalfa,<br>
Ugeiniai o Dreganna,<br>
A lot o Splot megis pla!

O drigolion dewr Gwalia y mae un<br>
Y mynnwn ei wledda;<br>
Hyn yw'n testun: "Iechyd da<br>
Gŵr arbennig Rhiwbeina."

*****<br>
*****

Bydd croeso i chwi brydyddion y ddinas yn y golofn hon a byddaf yn dod ar eich gofyn A.O., J.W., W.D., E.O., G.G., I.D., G.R., I.J., A.R., R.G., A.C., A.T.I. Ni ddisgwylir i bob cerdd fod ag arwyddocad cosmig iddi er y bydd croeso i gerdd felly os daw hi.

# RHYDFELEN

BETH SYDD WEDI BOD

BETH SY'N MYND I DDOD

**Mae** canolfan awyragored ysgol Rhydfelen yng Nghwrtycadno yn cael ei ddefnyddio'n gyson erbyn hyn. Dros wyliau'r haf bu sawl parti o blant ac athrawon o'r ysgol draw yno yn peintio ac yn tacluso.

Problem fawr i'r ysgol y dyddiau hyn yw'r ffaith nad yw'r newydd-ddyfodiaid mor rhugl eu Cymraeg â'r rhai a arferai deithio i'r ysgol o Gaerdydd a'r Barri a mannau eraill. Eleni eto, bu cwrs preswyl tra llwyddiannus yn yr ysgol i helpu'r plant i bontio'r symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Athrawon a swyddogion y chweched dosbarth fu'n cynnal y cwrs.

**Mae** Caerdydd wedi torri ei dolen gyswllt olaf â Rhydfelen er mis Gorffennaf elai - y disgybl olaf wedi gadael y chweched dosbarth. Wrth gwrs, adewyrcha hyn gynnydd cyson mewn addysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg. A'r flwyddyn nesaf, bydd Rhydfelen yn colli cyswllt â disgyblion Gwent pan fydd ysgol uwchradd Bargoed yn cael ei hagor.

Ond does dim rhaid i'r rhai mewn oed gadw draw. Ar nos Fercher, Medi 17, ceir datganiad ar organ yr ysgol gan Mr. John Cynan Jones o Dreorci. Dydd Sadwrn, Tachwedd yr 8fed, cynhelir ffair aeaf yr ysgol, ac ar y 13eg o'r mis, ceir darlith goffa J.Haydn Thomas. Fe'i traddodir gan y Dr. Gareth Owen, prifathro newydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. A da chi, peidiwch ag anghofio Rhagfyr yr lleg pan fydd yr ysgol yn perfformio opera Joseph Parry, "Blodwen" ym Merthyr Tydfil. Bydd hon yn noson i'w chofio!

Na, bydd lle ar gyfer cerddi syml gan y cyfeillion call hynny nad ynt yn eu hystyried eu hunain yn feirdd o fri. Efallai y bydd ambell athro ysgol yn taro ar rywbeth yng ngwaith un o'i ddisgyblion yr hoffai rannu â ni. Mae'n digwydd yn aml mai gan blentyn y ceir y gweld gwahanol, y gweld newydd hwnnw sy'n troi'n farddoniaeth o'i fynegi'n gain, a dichon bod ambell un a adawodd yr ysgol ers blynyddoedd â'r un gyneddf yn goroesi ynddo.

Dewch â'ch cerdd, da chwi. Gellwch ei hanfon ataf yn "Penmaen", 31, Heol Don, Yr Eglwys Newydd.

# Y CALENDR

Medi 8 - 13 : Theatr Y Sherman. Gwenith Gwyn. Cwmni Theatr Cymru.<br>
Medi 16: Festri Bethesda, Y Barri. Darlith gynta'r tymor, dan nawdd y Cymrodorion : W J Jones, Caerdydd<br>
Medi 25 : Coleg Addysg Caerdydd. Grŵp trafod llyfrau. Miss Ann Rosser yn agor trafodaeth ar waith T Llew Jones. Croeso i bawb<br>
Medi 29 : Theatr y Sherman. Culhwch ac Olwen. Siew bypedau.<br>
Hydref 1 : Sardis, Pontypridd. Noson gynta'r Gymdeithas Gymraeg newydd. Darlith gan W J Jones Caerdydd.<br>
Hydref 5 : Theatr y Sherman. Cyngerdd gan ddisgyblion Ysgol Glan-taf.<br>
Hydref 25 : Y Reardon Smith Cymanfa Ganu. Codi'r To! I gadw'r Dinesydd yn fyw.<br>
Tachwedd 3 - 5 : Theatr y Sherman Oedipws Frenin a Noson Amrywiol Cwmni Theatr Cymru<br>
Tachwedd 8 : Neuadd Rhiwbeina. Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd<br>
Rhagfyr 7 : Theatr y Sherman J O Roberts a'r Diliau

RHYWBETH I'W FWYTA!<br>
(Gweler tudalen 5)

4 golwythen o gig llo<br>
4 sleisen o gaws heb fod yn gryf<br>
blawd<br>
1 ŵy<br>
briwsion bara<br>
2 owns o fenyn<br>
persli wedi ei falu'n fân i addurno.

Ar gyfer y saws:

Chwarter peint o hufen<br>
Wythfed peint o win gwyn<br>
2 owns o fadarch


Tynnwch yr asgwrn o'r cig llo. Gorchuddiwch â haen o flawd ac yna eu trochi mewn ŵy wedi ei guro â briwsion bara. Ffriwch hwy am 5 munud yn y menyn.<br>
Dodwch sleisen o gaws ar bob golwyth a'u grilio nes bo'r caws wedi toddi.<br>
I wneud y saws, berwch y gwin yn gyson nes ei fod wedi lleihau. Ychwanegwch yr hufen a'r madarch wedi eu sleisio gan ei droi a'i goginio nes ei fod yn twchu.

Tywalltwch y saws dros y golwythau. Addurnwch â phersli.

HEN BENNILL....

Trwy afiechydon rhyfedd,<br>
Aeth llawer un o'i ddiwedd,<br>
Ond gwn am rai a aeth i'w hedd<br>
Trwy gloddio bedd â'u dannedd.

# ANEIRIN TALFAN



SIOM i'w lu cyfeillion fu clywed am farw Aneirin Talfan Davies yn Ysbyty Caerfyrddin, sir ei eni, yng nghanol Gorffennaf eleni. Cadwodd gwaeledd ef yn gaeth i'w gartref yn Llandaf am fisoedd lawer. Câi hi'n anodd symud o fan i fan, a dioddefai boen cyson yn ddirwgnach. Mawr fu gofal ei blant, Elinor, yn Llundain, a Geraint, yng Nghaerdydd, amdano. Tristwch iddynt oedd gweld corff a fu mor braff yn dihoeni o ddydd i ddydd.

Ymddeolodd yn gynnar fel Pennaeth Rhaglenni'r BBC yng Nghymru fel y gallai ymroi ati i lenydda. Roedd yn gyforiog o syniadau. I ddechrau, roedd am gwblhau cyfrol ar un o'i ffrindiau mawr, y llenor a'r artist, David Jones - cyfrol o lythyrau ei gyfaill iddo. Gydag ymdrech fawr, llwyddodd i ddwyn y gwaith hwn i ben, ond gellir darllen rhwng y llinellau, megis, a gweld faint fu cost y llafurwaith hwn iddo.

Ei ddymuniad arall oedd llunio cyfrol swmpus ar un o arwyr mawr ei fywyd, sef Mathews Ewenni. Yna, roedd ganddo dasg fwy byth ar ôl, sef llunio'i gofiant ef ei hun - cyfrol a fyddai'n sôn am ei fywyd ym mro Myrddin, Llundain, ac yn y diwedd, Caerdydd - gyda chyfnod hefyd yn Abertawe.

Fferyllydd oedd wrth ei grefft, ond llenydda oedd ei gariad mawr. Trwy ei fywyd, bu ar y blaen yn y byd llenyddol Cymraeg, gyda'i fys ar byls y pethe, a'i feddwl craff yn abl i grynhoi'r pwyntiau mwyaf astrus.

Bydd darllenwyr Barn wedi cael y cyfle i ddarllen ei sylwadau, "Ar ymyl y ddalen" yn gyson. Mae'n chwith meddwl mai yn rhifyn Gorffennaf, rhifyn teyrnged i'r Dr.Kate Roberts yr ymddangosodd ei sylwadau olaf. Fel y gwêl y darllenydd, roedd yn Llundain ar y pryd, wedi treulio peth amser mewn ysbyty yno. Roedd byth a hefyd yn sôn fel yr oedd y Dr. Kate yn medru ymroi iddi i lenydda mewn oedran teg, ac yntau, yn ŵr cymharol ifanc, mor fusgrell.

Roedd Dewi Sant a byd yr eglwys yn gyffredinol yn agos iawn at ei galon - ac roedd y Llyfr Gweddi Gyffredin a'r Beibl bob amser wrth law yn y fflat yn Llandaf, yn ymyl gweithiau Eliot a Choleridge.

Byddai'n barod i ddweud bob amser i golli ei annwyl wraig, rai blynyddoedd yn ôl fod yn ergyd drom iddo. Rywsut, wedi iddi hi fynd, fu bywyd byth yr un fath. Diwedd y bartneriaeth berffaith, ar un olwg.

Oherwydd i afiechyd ei rwystro rhag cyflawni, bu'r golled i'r byd llenyddol yn fawr.

# ANRHEGU ATHRAWES

Nos Wener, Gorffennaf 4, daeth nifer o rieni ifanc Caerdydd a llu o gyfeillion eraill i Goleg Cyncoed i gyfarfod anrhegu un o garedigion hynaf y Mudiad Meithrin yng Nghaerdydd, sef Nancy Chapelle. Yn absenoldeb anorfod Mrs Enid Jones-Davies, prifathrawes gyntaf Bryn-taf, anrhegwyd Mrs Chapelle, ar ran y rhieni, gan Mr Brian Jones, Cyfarwyddwr y Mudiad yng Nghymru. Soniodd fel y bu i Mrs Chapelle gychwyn ei chysylltiad â phlant bach y ddinas mor bell yn ôl a 1951, ac mai blaenffrwyth ei hymdrechion hi ac eraill oedd rhai o ddisgyblion cyntaf Bryn-taf.

Llywyddwyd y noson yn ddeheuig gan Elfed Evans, brodor o Ddinbych - ac un o rieni presennol y Mudiad. Rhoddwyd blodau i Mrs Chapelle gan Betsan Powys, un o'i chyn-ddisgyblion, ac mewn awyrgylch hyfryd-Gymreig ei naws cafwyd eitemau gan Betsan a Llinos, Rhiannon Rees ac Elinor Wyn, Ruth James a Howard Watts.

# DYDD AGORED

Garwyn Davies

CYNHALIWYD diwrnod agored y Ganolfan ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf y 4ydd. Roedd y drysau ar agor yn gynnar yn y bore ac roedd y miri yn dal i ferwi nes i'r olaf o'r dawnswyr gwerin adael y Twmpath am 8.30 yn yr hwyr!

Trefnwyd gweithgareddau'r dydd gan Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan, a chafwyd cefnogaeth barod y parti dawns, côr yr Aelwyd a'r parti drama. Bu aelodau y tri grŵp yma yn prysur wau eu gweithgareddau nhw, rhwng gwichiadau hamster Merfyn Jones o'r "Sgwâr Twll Llygoden." Dyma, yn ddiamau, oedd un o weithgareddau mwyaf atyniadol y ffair, ac fe fu'r hamster bach yn gyfrifol am ysgafnhau aml i boced yn ystod y dydd.

Mewn cornel arall, roedd y gŵr dawnus Cen Williams a'i ordd creu [illegible]thodynnau ar y pryd yn denu chwilfrydedd aml i gwsmer. Mewn cell ddirgel ar gyrion y gweithgareddau hyn roedd Madam Sera yn barod ddigon i ddarllen arwyddocâd llinell ar law neu grych mewn pêl wydr. Daeth aml i ŵr dewr allan yn edrych yn llai hyderus na phan groesodd riniog ei chell.

Trefnwyd "Nofio Nawdd" yn yr hwyr a'i gynnal (Na, nid yn Heol Conwy) yn Y Ganolfan Chwaraeon, Gerddi Sophia. Daeth nifer dda o blant ynghyd o adrannau Cynradd ac Uwchradd y ddinas ac ar ôl nofio, fe'u gwahoddwyd yn ôl i'r ganolfan i fwynhau ychydig o luniaeth a chwmni ei gilydd mewn twmpath.

Dyma'r tro cyntaf i ddiwrnod o'r fath gael ei drefnu gan y Pwyllgor Rheoli, a'r teimlad oedd fod y fenter arloesol hon yn werth ei hailadrodd yn flynyddol.

## ANGLADD ANEIRIN TALFAN DAVIES

Dydd Gwener, Gorffennaf 18fed, yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, cynhaliwyd gwasanaeth angladdol i'r diweddar Aneirin Talfan Davies. Roedd yr eglwys yn orlawn o bobl o bob rhan o Gymru - tyst o barch mawr y genedl tuag ato. Roedd y gwasanaeth yng ngofal ei ficer, Y Parchedig Leslie Evans. Cymerwyd rhan hefyd gan Y Tra Parchedig Eric Roberts, Esgob Tyddewi, Y Tra Parchedig David Rees, Llandaf a'i gyn-ficer, Y Parchedig Canon George Noakes. Talwyd teyrnged iddo gan ei hen gyfaill, Y Tra Parchedig G O Williams, Archesgob Cymru, a Mr Alun Oldfield Davies, cyn bennaeth y BBC yng Nghymru. Soniodd y naill am ei waith diflino dros yr eglwys yng Nghymru, a'r llall am ei drylwyredd a'i ofal mawr wrth ei fywyd pob dydd fel Pennaeth Rhaglenni'r BBC, ac yn enwedig ei awydd i ddwyn artistiaid ifanc, newydd, fel Dylan Thomas i sylw'r cyhoedd.

## GORSEDD Y BEIRDD

Mae Gorsedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn caru cydnabod gwasanaeth mewn nifer o wahanol feysydd wrth anrhydeddu ein henwogion a dyw eleni yn Nyffryn Lliw ddim wedi bod yn eithriad.

Roedd Y Dinesydd yn falch gweld i bump o'n dinasyddion gael eu hurddo.

I'w cymryd yn nhrefn lliw a chyfenw, y cyntaf oedd John Bevan, Is-geidwad â gofal Gwasanaethau Cyhoeddus yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Roedd John yn ysgrifennydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Y Barri yn 1968.

Yr ail oedd Huw Davies, Pennaeth Rhaglenni Teledu Harlech - am ei waith mawr tros ddiwylliant Cymru ar y cyfryngau. Buasai'r Dinesydd yn caru meddwl fod gan ei rieni lawer i'w wneud â hyn. Mae'r ddau'n ffyddlon iawn i bob peth Cymraeg yn y ddinas.

Aeth y drydedd wisg wen i Meirion Edwards am ei waith yn lansio Radio Cymru a helpu i roi'r iaith ar waith. Mae wedi cyfrannu'n gyson i fyd y ddrama yn ogystal.

Mair Elvet Thomas gafodd y bedwaredd wisg wen, am ei gwasanaeth i'r bywyd Cymraeg dros y wlad i gyd, a hynny mewn sawl cyfeiriad. Gweithiodd yn galed dros eisteddfod Caerdydd - a hi yw'r unig un o'r ŵyl honno a gaiff ei hanrhydeddu.

Aeth gwisg werdd i Gerald Davies am ei gampau ym myd y bêl hirgron yng Nghymru. Mae wedi chwarae ddegau o weithiau dros ei wlad.

Mewn ffordd, gellid hawlio cyfran o un arall. Er ei fod yn byw yn Nhreorci, Mae'r Athro Ceri Lewis yn Bennaeth ar Yr Adran Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, yn y ddinas.

I fynd i tu allan i Gaerdydd, roedd rhai'n synnu nad oedd gwasanaeth mawr Mrs Lili Richards wedi cael ei gydnabod yn barod. Anrhydeddwyd hi â'r wisg wen. Cafodd dau o Reolwyr Ysgol Llanhari'r wisg las, hefyd, sef Y Cynghorydd Glyn James, Fern-dale a'r Cynghorydd E.J.Davies Orwr. Cafodd Siân Wyn Davies ei gwisg las trwy arholiad - a dringo o'r wisg werdd. Mae hi'n ferch i W H Davies a Mrs Davies. Bydd nifer o'r plant yn cofio am Mrs Davies fel nyrs Rhydfelen.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *


### Y CALENDR BACH

Cofiwch am gyngerdd Ysgol Llanhari yn y Tabernacl, nos Sadwrn, Tachwedd 22.

Mae cynulleidfa un addoldy yng Nghaerdydd wedi bod yn addoli am sbel yn ysgol Bryn-taf. Yn awr, maent yn ôl yn eu nyth. Dyma stori'r ail agor gan Gwyn Lewis Davies.

# EBENESER

Hyfrydwch oedd gweld pob sedd yn llawn ar fore Sul, Gorffennaf 20, pan ddychwelodd cynulleidfa Ebeneser i'r capel yn Heol Siarl ar ôl bod yn cynnal gwasanaethau yn neuadd ysgol Bryn-taf am chwe mis tra bu'r ymgymerwyr wrth y gwaith o wella ac addasu'r adeilad.



Cyfarfod y plant oedd hi ar fore Sul. Hwy oedd yn darllen, yn gweddio ac yn cyhoeddi'r emynau. Yn lle pregeth, cawsom ddrama ganddynt ar waith Dr.Barnardo. Clo hyfryd ar y gweithrediadau oedd bedydd mab bychan y Gweinidog gan ei daid, y Dr. R Tudur Jones, Bangor. Dafydd Tudur yw enw'r un bach.

Yn oedfa'r hwyr, yr oedd pob sedd eto'n llawn a'r Gweinidog yn pregethu gydag arddeliad i gynulleidfa fawr o aelodau a chyfeillion ac ymwelwyr. Cyn y cymun ar ddiwedd yr oedfa, derbyniwyd un ar ddeg o bobl ifainc yn gyflawn aelodau.

Ar nos Lun, Gorffennaf 21, cafwyd cyngerdd gyda David Elias wrth gonsol newydd yr organ o'r hen Ebeneser, a'r datgeiniaid, Arwel Peleg Williams(tenor) ac Eleri Peleg Williams(soprano), ynghyd â Sylvia Price(adrodd). Cyfrannodd Côr yr eglwys, dan arweiniad John Ewart Jones, yr anthem, "Pebyll yr Arglwydd". Noson lwyddiannus, gyda'r gynulleidfa yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi pob eitem.

Roedd hyn i gyd er gwaethaf toriad damweiniol ac anffodus yn y cyflenwad trydan cyhoeddus a achosodd oedi o hanner awr cyn dechrau'r cyngerdd ac a ddigwyddodd eilwaith yn ystod yr adloniant. Roedd chwiorydd y capel wedi paratoi lluniaeth i dynnu dŵr o'r dannedd a manteisiwyd ar yr ail doriad i gyfranogi ohono. Gwnaed hyn yn y festri ar ei newydd wedd. Does dim rhaid dweud na fu'r platiau'n llawn am hir!

Yn ystod y noson, gwnaed casgliad sylweddol tuag at Gronfa Argyfwng Dwyrain Affrica.

Mae'r addoldy'n awr ar newydd wedd. Mae'r organ wedi ei ail osod yn y gilfach grom ym mlaen y capel a'r consol wedi'i osod ar yr ochr. Mae'r pulpud wedi'i gynllunio i gyd-weddu â ffrynt newydd yr organ a'i symud o'r ochr i'r canol. Gosodwyd sistem sain i mewn, ac addaswyd y fynedfa ac ehangwyd y cyntedd ac adeiladu grisiau o'r cyntedd i'r llawr isaf, sef y festri. Mae'r gegin, hefyd, wedi'i hail gynllunio.

Trefnwyd swyddfa i'r gweinidog, ail wneud y sistem drydan a gosod sistem wresogi fodern i mewn. Mae cot o baent dros y coedwaith ac mae'r cwrt allanol wedi ei lanhau. Bydd y cyfan yn gaffaeliad mawr.

### O'R CYSGOD I'R EIRA

Mae R Alun Evans a'r teulu wedi mudo i'r Gogledd erbyn hyn. Gobeithio nad oes unrhyw arwyddion symbolaidd yn eu dewis o enwau i'w cartrefi. Yr enw ar eu hannedd yn y ddinas oedd Cil-haul, ond maen nhw wedi bedyddio eu tŷ newydd yn "Nant yr eira". Mae'n debyg fod tynfa Llanbrynmair yn fwy na thynfa Llanddeiniol! Os carech chi anfon gair, y cyfeiriad llawn yw 25, Tal-y-cae, Tregarth, Bangor.

### ADIOS SENORITA?

Mae Angharad Dafydd, Llandaf, yn gobeithio "gweini tymor" yn ysgol gynradd Rhiwbeina cyn teithio'n lled bell. Pan gafodd Y Dinesydd air â hi, roedd yng nghornel fapiau a geiriaduron un o siopau llyfrau mawr canol y ddinas. Ac roedd yn craffu ar eiriadur Sbaeneg. Cael gwybod wedyn ei bod yn meddwl am fynd dros y môr, yr holl ffordd i Buenos Aires yn Ionawr 1981.

# Golygyddol

MAE gan newyddiadurwyr wrth grefft ymadrodd i ddisgrifio misoedd yr haf, sef y misoedd dwl - pryd nad oes llawer yn digwydd. Mae'n gyfnod "dwl" ar Y Dinesydd yn ogystal, achos, gyda chyhoeddi rhifyn Gorffennaf/Awst, bu'n rhaid iddo ffarwelio â'i olygydd, Mr Raymond Edwards, Llandaf. Bu wrth y llyw am flwyddyn galed, ac roedd graen ar bob rhifyn a gynhyrchodd er bod yr amgylchiadau'n anodd yn aml.

Byddwch yn gwybod am y problemau a fu i gael Y Dinesydd allan mewn pryd rai misoedd yn ôl. Byddwch yn gwybod hefyd fod y stori wedi newid erbyn hyn a bod pob rhifyn yn ymddangos ar ddechrau'r mis. Ef, wrth lyw'r panel golygyddol, sydd wedi sicrhau hyn.

Byddwch wedi gweld hefyd fod ein dull o "argraffu" wedi newid - ac mae hyn eto yn gwneud y gwaith yn haws ar un olwg ac yn fwy anodd ar olwg arall. Ond llwyddodd i oresgyn yr holl broblemau yn rhyfeddol o dda, a chyda gwên ar ei wyneb beunydd. Mae pob un sy'n ymhel â'r papur yn diolch o galon iddo am ei lafurwaith. Ein gobaith yw na fydd yn ein gadael yn llwyr ond y bydd wrth law gyda'i gyngor a chyda'i bwt o newydd.

Edrychwch ar hwn fel rhifyn sy'n mynd yn ei flaen heb yrrwr - a maddau pob cam gwag a thudalen blêr. Erbyn mis Hydref, bydd popeth mewn trefn eto.

Wrth gwrs, rhaid cael newyddion - oddi wrthych chi, gan mai eich papur chi ydyw. Yn y cyfamser, byddwch cystal ag anfon pob pwt am unrhyw beth sydd wedi digwydd i W J Jones 46 Heol Crystalwood Caerdydd (756282). Bydd yn help i gael popeth mor fuan ag y bo modd.

# EGLWYS EFENGYLAIDD CAERDYDD

Sefydlwyd yr eglwys newydd hon rai misoedd yn ôl bellach, ac erbyn hyn cadarnhawyd y cwmni mewn cymdeithas â'i gilydd. Buddiol dros ben fu'r cyfarfodydd i drafod egwyddorion sylfaenol bywyd yr eglwys, a'u cyfrifoldeb ariannol a chenhadol. Llawenydd mawr yw cael cwmni ymwelwyr ar y Sul, a gwahoddwn eraill o Gymry'r ddinas i ymweld â ni. Yn ystod y misoedd diwethaf ymwelodd ffrindiau â ni o gylchoedd eraill yng Ngymru lle y ffurfiwyd achosion newydd Efengylaidd. Ynghanol anobaith y dydd mae'n dda deall bod Duw yn medru gwneud gwaith newydd. Yn ystod gwyliau'r Pasg bu amryw o'r aelodau mewn gwersyll o dan nawdd y Mudiad Efengylaidd ym Mryn-y-groes, Y Bala a chael amser da yno.

Parhawn i gyfarfod yn yr wythnos yng nghartref Mr a Mrs Selwyn Williams, 7A, Cefn Coed Avenue, Cyncoed. Cawn amser buddiol yno wrth astudio'r gair; trafod pynciau a chydweddio. Y cam diwethaf o bwys oedd neilltuo'r Dr. Phil Ellis i fod yn henuriad i gydlafurio â'r Parchedig Noel Gibbard.

BBC

LLONGYFARCHION i Catrin Gerallt, ar gael ei phenodi'n un o gynhyrchwyr HELO BOBOL, i helpu Hywel Gwynfryn a'r lleill i roi'r iaith ar waith. Ac i Dewi Roberts ar gael ei benodi'n Rheolwr llawr yn yr Adran Deledu.

CYWIRIAD

Os ydych chi wedi gwisgo eich cot i fynd i'r Ŵyl Cerdd Dant, gellwch ei diosg eto. Fe'i cynhelir ar y SEITHFED o Dachwedd, 1981, ac nid fel y nodwyd yn rhifyn Gorffennaf Awst o'r Dinesydd.


Da gan Philip Morgan a'i Fab Cyf., allu dweud bod gwin bord 'Calon Lân' nawr ar eu rhestr. Cyfuniad Ewropeaidd yw hwn, wedi'i botelu yn yr Almaen ac o naws tebyg i mosel. Prif bwrpas cyflwyno'r gwin hwn wedi'i labelu'n gyfangwbl yn Gymraeg yw rhoi boddhad i'r bobl hynny y mae hi'n iaith gyntaf iddynt neu sy'n gyfarwydd â hi. Pris manwerth potelaid 70 centilitren yw £1.79.



CALON LÂN®

CYFUNIAD O WINOEDD O WLEDYDD Y GYMUNED EWROPEAIDD

Wedi'i Botelu Gan

Richard Trimborn, GmbH, Bad Kreuznach, YR ALMAEN

PHILIP MORGAN A'I FAB, CAERDYDD 70 cl e

**Philip Morgan a'i Fab Cyf., (sef. 1929)**

Prif Farsiandiwr Gwin Caerdydd

126, Wyndham Crescent, Caerdydd, Teleffon 31570

CBC 221

Cofia mai heddiw yw'r dydd yr oeddet yn pryderu amdano ddoe...

Nos Fercher, Mehefin 25, daeth rhai o Gymry'r ddinas, ar wahoddiad y Cwmni Darlledu, i lawr i stiwdios y cwmni i fwrw golwg dros raglenni Cymraeg y dyfodol.

Roedd un gŵyn gyffredinol ymhlith y rhai a ddaeth at ei gilydd, sef bod y gwasanaeth newyddion yn gwbl annigonol, ac roedd y rheswm am hyn yn eglur i bawb.

Neb yn gyfrifol am raglenni Cymraeg! Hynny yw, rhaglenni newyddion.

Dydy'r Cwmni ddim wedi gweld ei ffordd yn glir eto i apwyntio yn y maes pwysig hwn. Canlyniad hyn yw fod staff fechan Gymraeg y cwmni yn gorfod gweithio fel un sy'n lladd nadredd i geisio llenwi bylchau. Derbyn pwt o newydd - chwilio am eiriadur, cyfieithu ar ras, yna mynd at y meic - a darlledu! Gwaetha'r modd, mae'r ôl brys yma'n amlwg, a gobaith Y Dinesydd yw y bydd rhywun yn cael ei apwyntio'n fuan i'r swydd allweddol hon.

Pan gafwyd y cyfarfod, doedd y Cwmni ddim wedi penderfynu sut y byddai'r oriau ychwanegol sydd gennym ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio. Dywedwyd nad oedd yn bosibl symud yr awr amhosibl, saith i wyth y bore ar gyfer y sesiwn Sul. Dywedodd un cyflwynydd ei fod yn awyddus i gael llai o siarad a mwy o fiwisg i'r sesiwn hon, rhag tarfu ar y rhai di-Gymraeg. Pryd clywson ni'r stori yna o'r blaen, tybed?

Fel y gwyddoch, mae'r arlwy ar ein cyfer yn awr rhwng wyth a hanner awr wedi naw yn yr hwyr. Teimlir mai dyma yw'r adeg fwyaf cyfleus. Roedd yn amlwg yn y cyfarfod fod y Cwmni am lynu wrth ei batrwm darlledu, er gwaethaf cri'r gweithgorau, sef ychydig o fiwsig, yn cael ei ddilyn gan ychydig o gerddoriaeth ac yna ychydig felodiau, a thipyn bach o raglenni sgwrs a llên.

Yn rhifyn Hydref, fe fydd gan Y Dinesydd, gobeithio, gopi o'r rhaglenni ar gyfer pob nos ichi.

YDYCH CHI WEDI CAEL EICH RHAGLEN EISTEDDFOD ETO?
COFIWCH Y DYDDIAD! TACHWEDD 8fed.

DEWCH I'N CEFNOGI!

LLWYDDIANT

Ymunodd Carl Derby, y ffidlwr ifanc o'r Porth a enillodd mor aml yn Eisteddfod Yr Urdd â Cherddorfa Cwmni Opera Cymru.

PRIFATHRAWES

Dymunwn yn dda i Mrs Heulwen Jones yn ei swydd newydd fel prifathrawes Ysgol Babanod Rhymni. Bydd colled ar ei hôl yn Yr Eglwysnewydd.

BWRDD CROESO

Penodwyd Mrs Janet Parry Jones i swydd amser llawn gyda'r Bwrdd Croeso. Pob dymuniad da iddi.

# CAMPWR

Mae'n anodd meddwl am unrhyw fachgen ifanc sy'n brysurach na Julian Francis, Rhiwbeina, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Eglwysnewydd.

Meddyliwch am ei gampau hyd yn hyn:

Ennill am daflu'r ddisgen o dan bedair ar ddeg ym mabolgampau Ysgolion Uwchradd De Morgannwg yn Y Barri ym Mai. Wedi chwarae i dim criced ysgolion De Morgannwg a Chymru. Bydd yn taflu'r ddisgen dros y sir yng Nghwmbran yn ystod y mis nesaf ac eleni mae'n aelod o dim criced yr ysgol sydd yng nghystadleuaeth y "Lord Taverners" ac fe fydd y ddau dim gorau yn chwarae yn Edgebaston yn ystod yr haf.

Dyw e ddim yn segura yn ystod y gaeaf, chwaith. Mae'n aelod o dim peldroed a thim rygbi'r ysgol. Roedd yn aelod o dim rygbi Clwb Project Ieuenctid Rhiwbeina a enillodd gwpan Cymru yn y gystadleuaeth saith-bob-ochr yn Abertawe.


GWESTY LLETY CYMRO

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

GWELY A BRECWAST
BWYD A GWIN DA

TRWYDDED PRESWYL


# PYTIAU

CROESO i'r brifddinas i Eirian Thomas, Blaendulais. Treuliodd ei dyddiau ysgol yn Rhydfelen, cyn mynd i raddio yng Ngholeg Prifysgol Abertawe. Mae wedi cael swydd yn adran Cyncoed, Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg. Pob lwc iddi yn ei swydd newydd.

... ... ...

TRISTWCH yw ffarwelio â neb, ac mae llu o blant ac athrawon Bryntaf yn drist o wybod y bydd un o athrawesau mwyaf poblogaidd y babanod yn absennol y tymor hwn. Mae wedi dilyn ei gŵr a'i waith yr holl ffordd i Gaeredin. Mary Sinclair ydy hi (Mary Jones gynt) gyda'i gwreiddiau'n ddwfn yng Ngheredigion.

... ... ...

LLONGYFARCHION i Rhodri Morgan ar gael ei ethol yn gynrychiolydd Y Farchnad Gyffredin yng Nghymru. Mae Mr Morgan yn fab i'r Athro Emeritws T J Morgan a Mrs Morgan, Abertawe.

Mae hon yn swydd gyfrifol a tra phwysig a gallwn ddiolch i'r drefn fod rhywun sydd wedi ei wreiddio mor ddwfn yn Y Pethe yn awr wrth y llyw.

... ... ...

CROESO i'r brifddinas i ddwy sydd newydd gwblhau eu cyrsiau coleg ac sy'n dechrau ar eu gwaith fel athrawesau. Mae Annette Roberts a'i gwreiddiau ym Mancffosfelen, ac mae newydd ddechrau ar ei swydd fel athrawes Gymraeg ym Mhontllanfraith. Daw Rhian Rowe o Gross Hands ac mae'n enwog yn y byd canu pop. Mae hi yn dechrau ar ei gyrfa fel athrawes yn Ysgol Gymraeg Y Bont-faen.

... ... ...

<u>Llongyfarchion</u> i Arfon Rhys, sy wedi bod yn byw ym Mhontypridd ar ei ddyrchafiad i swydd weinyddol gyda'r BBC ym Mangor. Hyd yn ddiweddar, bu'n gweithio yn Adran Ysgolion y BBC yma yng Nghaerdydd. Dymunwn bob llwyddiant iddo ef a Lena a'u dau blentyn yn "y fro Gymraeg". Mae'n ddiddorol nodi fod gan y plant, Cynog ac Oluf, dair iaith, y Gymraeg, Saesneg a Daneg.

Â'n <u>llongyfarchion</u> hefyd i Eleri Hopkin sydd hefyd wedi bod gyda'r BBC yng Nghaerdydd. Mae wedi cael ei phenodi i gynhyrchu dramâu o stiwdios y BBC ym Mangor. Bu am beth amser yn gweithio gyda radio Ysbyty'r Waun. Bydd colled ar ei hôl yn y ddinas.

# GADAEL GWAITH

Os gwelsoch chi dristwch ar wyneb Brian Jones, Cyfarwyddwr y Mudiad Meithrin yng Nghaerdydd ddechrau Gorffennaf, doedd dim angen ichi holi i wybod pam.

Colli ei arolygwr swyddfa a'i deipydd ar yr un pryd!

Mae Mrs Mair Owen wedi rhoi gwasanaeth hir i'r Mudiad, a rhedai popeth yn ddidrafferth bob amser o dan ei gofal a'i llygaid craff. "Fe fydd fel colli braich dde," oedd sylw Brian wrthyf. "Wn i ddim beth wnawn ni hebddi - na wn i, wir."

O adnabod Mrs Owen, gwyddom na all fyw'n hir cyn rhoi ei gofal craff i rywbeth arall! Felly, pob lwc iddi gyda'i cham nesaf.

Ychydig fisoedd fu arhosiad Miss Bethan Aur Edwards yn y swyddfa. Roedd wedi dod i lawr o hedd Dolgellau fach ("dim byth yn digwydd yno") i fwrlwm a bywyd y ddinas.

Pam symud, felly?

Swydd teipydd yn mynd yn Sain Ffagan - ymgeisio amdani a'i chipio! Pob lwc iddi hithau hefyd.

# Yr Ymgyrch Deledu

Mae'r Ymgyrch Deledu yn dal i daflu ei chysgodion yn drwm dros ddinas Caerdydd. Cafodd un o gefnogwyr selocaf Y Dinesydd, sef Meredydd Evans, ddirwy drom yn llys Caerfyrddin ddechrau'r haf.

Cafodd Y Parchedig Rhys Tudur, hefyd, ei ddirwyo yn Llys Ynadon Pontypridd am fod heb drwydded deledu. Rai wythnosau cyn hyn, cafodd Eleri Rogers, Llandaf ddirwy am drosedd debyg.

## LLONGYFARCHION

Llongyfarchion i Iolo Dafydd ar ennill ohono radd MA Prifysgol Cymru. Mae Iolo'n fab i Tom ac Eirwen Davies.

---

Llongyfarchion i Mererid Davies, merch y Dr. Eirug a Mrs Margaret Davies ar gael ei dewis yn aelod o gerddorfa ieuenctid Cymru. Ei hofferyn yw'r soddgrwth.

---

Llongyfarchion i Hywel D Roberts, Heol Cefn Coed am gael ei ddyrchafu'n Warden Urdd y Gerddedigion yn ddiweddar. Mae hon yn swydd allweddol a phwysig a diau y caiff llai o'r bobl "o'r tu allan" a mwy o Gymry eu hanrhydeddu o hyn allan. Un o'r pwyllgorau pwysicaf y bydd gan y Warden ddylanwad arno yw Pwyllgor yr Anrhydeddau.

# Tair Siân

Gellir dweud fod gyrfa Siân Gwenllian Jenkins, Lomond Crescent wedi gorffen ffurfio un cylch. Mae'n debyg ei bod yn dal i gofio mynd yn bump oed i ysgol Bryn-taf am y tro cyntaf, gan edrych o'i chwmpas â pharchedig ofn ar yr athrawon a fyddai'n llenwi ei byd am flynyddoedd. Wel, y Medi hwn, mae'r esgid ar y droed arall, a bydd Siân yn dechrau eto ym Mryn-taf, ond y tro hwn, fel "Miss!" Mae newydd gael ei hapwyntio fel athrawes yn adran y babanod.

---

Un arall sy'n cychwyn ar yrfa ddiddorol yw Siân Helen Davies, Rhiwbeina. Ym myd arlun a dylun y bu diddordeb Siân Helen erioed, ac mae newydd ymuno â chwmni Design Systems, Caerdydd, sy'n gwneud llawer o waith dylunio ar gyfer y wasg Gymraeg. Tybed a ŵyr hi y byddai'r Dinesydd, yn ei wedd bresennol, wrth ei fodd yng nghwmni dylunydd o'r radd flaenaf.

Dod yn ôl i Gymru yw stori Siân Evans, Abington, heb fod nepell o Rydychen. Ar ôl graddio yn Aberystwyth, bu'n gwneud cwrs Ysgrifenyddes ac mae wrthi'n awr yn gwneud gwaith ysgrifenyddol yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Mae'n ferch i'r Athro Ellis Evans, y gŵr a olynodd Syr Idris Foster yng nghadair Celteg Coleg Iesu.

COFIWCH! EICH PAPUR CHI YW'R DINESYDD. ANFONWCH NEWYDD AR GYFER RHIFYN HYDREF ERBYN Y PYMTHEGFED O FEDI. BYDD CROESO I BOPETH YN 46, HEOL CRYSTALWOOD. FFÔN 756282......

Carai Pwyllgor Y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

CAPEL Y TABERNACL YR HAYES CAERDYDD

CYNGERDD MAWREDDOG

gan

GYMDEITHAS GORAWL
YSGOL GYFUN LLANHARI

yn cyflwyno

GLORIA VIVALDI

a gweithiau eraill

nos sadwrn 22 tachwedd 1980 mynediad £2 £1 MYFYRWYR PLANT 50c



Cyhoeddwyd gan Bwyllgor y Dinesydd. Argraffwyd gan Fingerprints, 56 Mackintosh Place, Caerdydd.